Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Y Bannau**
**Penlan**
**Aberhonddu**
**Powys**
**LD3 9SR**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Bannau wedi ei lleoli mewn llecyn braf ar gyrion tref Aberhonddu ac yn cael ei chynnal gan Awdurdod Addysg Lleol Powys. Mae'n ysgol benodedig Gymraeg sydd yn gwasanaethu ardal eang sydd yn wledig yn ogystal â threfol. Cymysg yw cefndir cymdeithasol y disgyblion. Maent yn cynrychioli'r ystod lawn o allu.

Ar hyn o bryd, mae 154 o ddisgyblion rhwng 4 a 11 oed ar gofrestr yr ysgol ac fe'u derbynnir ar ddechrau'r tymor y maent yn cael eu pen blwydd yn bedair oed. Mae gan 3.9% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn is na'r cyfartaledd sirol o 11.6% ac yn sylweddol is na'r ffigwr cenedlaethol o 20.1%. Dynodir cyfanswm o 23 (15%) yn ddisgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys dau ddisgybl ar ddatganiad o'u hanghenion. Dauddeg saith y cant o ddisgyblion ddaw o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a chyfrwng yr addysgu a'r dysgu.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod 2005 ac mae'r pennaeth presennol yn cyflawni ei swydd ers 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl yn 2010-2011 ar gyfer Ysgol Y Bannau yw £3,511 sy'n cymharu gydag uchafswm o £11,812 ac isafswm o £2,891 ar gyfer ysgolion cynradd Sir Powys. Mae cyllideb fesul disgybl yr ysgol yn rhif 52 allan o'r 101 ysgol gynradd ym Mhowys pan restrir hwy yn ôl cyfanswm, gan gychwyn â'r uchaf.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod yr ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn dda;
- bod yr ysgol yn darparu amrediad da o brofiadau dysgu o fewn a thu allan i'r ysgol; ac
- mae llawer o'r disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyrraedd y safonau disgwyliedig erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Fodd bynnag:

- yn gyffredinol, nid yw perfformiad yr ysgol, o'i chymaru ag ysgolion tebyg, wedi bod yn dda dros y tair blynedd diwethaf; ac
- mewn lleiafrif arwyddocaol o wersi mae cyflymder y wers yn rhy araf a hyn yn lleihau brwdfrydedd rhai disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod yr ysgol wedi datblygu prosesau hunan arfarnu sy'n dylanwadu'n gynyddol ar y cynllun datblygu ysgol;
- bod y corff llywodraethol yn darparu cyfeiriad strategol priodol ar gyfer gwaith yr ysgol ac yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn dda; ac
- yn gyffredinol, mae tystiolaeth o gynnydd yn safonau gwaith disgyblion dros y flwyddyn ysgol bresennol.

Fodd bynnag:

- nid yw rôl yr uwch dim rheoli, na chyfrifoldebau unigolion o fewn y tîm, wedi eu diffinio'n ddigon clir i gael effaith ddigonol ar y meysydd ar gyfer gwella; ac
- yn gyffredinol nid yw'r dystiolaeth sy'n deillio o fonitro safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn digon cadarn.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i’r ysgol:

A1 wella safonau cyrhaeddiad disgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol;

A2 ddiffinio yn fwy eglur rôl a chyfrifoldeb yr uwch dîm rheoli yn enwedig mewn perthynas â chodi safonau;

A3 ddatblygu trefniadau addas ar gyfer monitro ansawdd yr addysgu a rhannu arfer da;

A4 gryfhau ei gweithdrefnau monitro i sicrhau tystiolaeth gadarnach ar gyfer yr hunan arfarniad; a

A5 datblygu strategaethau addas i gyfarfod ag anghenion disgyblion mwy abl a thalentog.

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o'r disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyrraedd y safonau disgwyliedig erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol ac yn gyffredinol, fe welwyd cynnydd derbyniol yn safonau gwaith disgyblion dros y flwyddyn ysgol bresenol. Mae llawer o'r disgyblion yn wrandawyr da a gallant fynegi eu hunain yn effeithiol ar lafar. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen i safon dda ac yn medru trafod eu barn a'u rhesymeg gan gyfeirio at gynnwys. Defnyddia mwyafrif y disgyblion eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus, gyda'r gweddill yn gwneud hynny i safon boddhaol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol o'r medrau maent yn eu datblygu drwy eu gwersi ac yn medru eu trafod. Mae bron pob disgybl yn hyderus ar lafar yn y Gymraeg ac mae holl ddisgyblion yr ysgol yn rhugl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol. O ystyried cefndir ieithyddol llawer ohonynt mae eu safon ysgrifennu a'u medrau Cymraeg yn gadarn.

Yng nghyfnod allweddol 1 bu tuedd gyson ar i lawr yn y nifer disgyblion yn cyflawni'r lefel disgwyledig, sef lefel 2, mewn mathemateg ers 2007. Gwelwyd gwelliant yn y canran yn cyflawni'r lefel yma yn y Gymraeg ac mewn gwyddoniaeth yn 2009 o gymharu â'r flwyddyn cynt ond yn 2010 roedd perfformiad yr ysgol yn y tri pwnc craidd yr isaf yn y teulu. Mae canran y disgyblion yn cyflawni lefelau uwch, sef lefel 3 neu well, ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn gyson is na chyfartaledd y teulu yn y Gymraeg ac mewn gwyddoniaeth ers 2007. Roedd y ganran yn cyflawni lefelau uwch mewn mathemateg yn amrywio mewn cymhariaeth â'r teulu dros y cyfnod yma. Yn gyffredinol mewn cymhariaeth â pherfformiad ysgolion eraill gyda chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim mae perfformiad yr ysgol wedi syrthio o'r ail chwarter yn 2007 i'r pedwerydd chwarter yn 2010.

Yn gyffredinol, yng nghyfnod allweddol 2 mae canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel disgwyledig, sef lefel 4, ym mhob un o'r pynciau craidd wedi lleihau dros y pedair blynedd diwethaf. Bu cynnydd yn y perfformiad yn 2009 ond yn 2010 roedd y perfformiad yn y Gymraeg y trydydd isaf yn y teulu a'r ail isaf yn y teulu yn y Saesneg. Roedd y perfformiad yr isaf yn y teulu mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canran y disgyblion yn cyflawni lefelau uwch, sef lefel 5 neu well, wedi bod yn is na'r teulu yn y pynciau craidd mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Yn 2009 roedd perfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill gyda chyfran disgyblion â hawl i ginio am ddim yn y chwarter uchaf. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd eraill ers 2007 bu'r perfformiad cyfatebol yn y chwarter isaf.

**Lles: Da**

Mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddeall yn dda beth sydd angen iddynt ei wneud i fod yn iach. Mae llawer ohonynt yn manteisio ar weithgareddau megis y siop ffrwythau, clybiau a thimau chwaraeon, a bwydlen iach amser cinio. Teimla'r plant yn ddiogel a hapus yn yr ysgol ac maent yn deall at bwy i fynd os oes ganddynt

broblem. Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac yn deall yn glir beth yw ei rôl. Mae yn cwrdd yn rheolaidd ac mae'n gallu dangos tystiolaeth glir o sut mae llais disgyblion wedi newid pethau o fewn yr ysgol. Mae prydlondeb y disgyblion yn dda ac mae lefelau presenoldeb wedi gwella ers 2007. Mae'r ganran bellach yn debyg i gyfartaledd ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol, mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol ac maent yn dangos parch at eu cyd-ddisgyblion ac at oedolion. Mae bron pob disgybl yn cyd-weithio'n dda gyda disgyblion eraill i gyflawni tasgau'n effeithiol. Mae eu hymddygiad mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn ac mae y rhan fwyaf yn datblygu'n addas er mwyn symud i gam nesaf y dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrediad da o brofiadau dysgu o fewn a thu allan i'r ysgol. Mae'r profiadau yma yn cyfarfod â gofynion y cyfnod sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Yn gyffredinol, caiff gwersi eu cynllunio'n dda, gan ddefnyddio ystod o weithgareddau sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth a mwynhad disgyblion mewn dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer anghenion y plant mwyaf abl yn gyson ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau fod y cwricwlwm yn datblygu'n briodol fel mae'r disgyblion yn symud o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 2. Mae'r ystod eang o weithgareddau all-gwricwlaidd, teithiau addysgol a phrofiadau preswyl yn datblygu a chyfoethogi dysgu'r disgyblion ymhellach.

Mae'r cynlluniau gwaith manwl a strwythuredig yn hybu datblygiad yr ystod o fedrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r drefn gynllunio yn darparu'r cyfleoedd priodol ac yn arwain at ddilyniant effeithiol o un dosbarth i'r nesaf. Mae'r defnydd o amrywiol brosiectau a gwaith thematig yn hyrwyddo a datblygu'r medrau. Caiff darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n llwyddiannus trwy gyfrwng mwyafrif o feysydd y cwricwlwm. Mae ystod o ymweliadau ac ymwelwyr â'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion diwylliannol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Mae'r ddarpariaeth a'r defnydd o'r Cwricwlwm Cymreig yn effeithiol ac mae cyfleoedd wedi eu mapio'n drylwyr ar draws y cynlluniau gwaith. Mae y rhan fwyaf o'r staff yn modelu iaith yn gyson dda ac mae hyn yn hyrwyddo datblygiad llafar y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu amryw o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang. Mae'r cyngor ysgol yn gweithredu fel pwyllgor eco ac mae'n hyrwyddo materion eco yn effeithiol. Er enghraifft, bu'n gyfrifol am ddatblygu Cod Eco yr ysgol ac am sefydlu biniau ailgylchu. Mae'r ysgol wedi ennill statws Ysgol Eco ddwywaith dros y blynyddoedd diweddar. Mae gan yr ysgol agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill. Ceir pwyslais cryf ar ddysgu'r plant am eu cyfrifoldeb at y gymuned ac at rai llai ffodus ac fe drefnir nifer o gyfleoedd gwerthfawr i godi arian i elusennau sy'n gweithio yn lleol a thramor.

**Addysgu: Digonol**

Yn y gwersi mwyaf effeithiol, defnyddir adnoddau yn dda er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion gan roddi sylw i'r clywedol yn ogystal â'r gweledol. Yn y gwersi hyn mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael eu herio drwy dasgau gwahaniaethol pwrpasol a chwestiynu treiddgar sy'n ymestyn unigolion a grwpiau i gyrraedd eu potensial. Fodd bynnag, mewn lleiafrif arwyddocaol o wersi mae cyflymder y wers yn rhy araf a hyn yn arwain at leihau brwdfrydedd rhai disgyblion. Yn y gwersi hyn nid yw'r gwahaniaethu yn darparu her ddigonol i gwrdd ag anghenion pob disgybl, yn enwedig y rhai mwyaf abl. Mae'r rhan fwyaf o'r gwersi wedi eu cynllunio'n dda gyda amcanion eglur, ond mewn lleiafrif nid oedd yr amcanion yn ddealladwy gan leiafrif o'r plant nac ychwaith yn cael eu cyrraedd. Defnyddir staff cymorth dysgu dosbarth yn effeithiol yn y rhan fwyaf o'r gwersi ac mae gan y staff berthynas dda gyda'r disgyblion. Yn gyffredinol, maent yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad effeithiol ac adlewyrchir hyn yn ymateb cwrtais a pharchus disgyblion yr ysgol gyfan.

Mae dulliau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio yn yr ysgol. Defnyddir nod a meini prawf llwyddiant yn gyson ac mae bron pob disgybl yn meddu ar dargedau personol. Mae'r defnydd o hunanarfarnu ac arfarnu cyfoedion yn datblygu ond nid yw hyn yn gyson drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r marcio yn gynhwysfawr ac yn adeiladol, ond eto ceir anghysondeb wrth gydymffurfio â'r polisi ysgol. Yn gyffredinol nid yw'r disgyblion bob amser yn ymateb yn effeithiol i farcio ac yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r ysgol yn asesu plant yn gyson. Yn gyffredinol, gwneir defnydd da o'r wybodaeth i adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion i dderbyn cefnogaeth drwy grŵpiau Sgiliau Sylfaen a disgyblion mwy abl a thalentog.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn dda. Rhoddir pwyslais priodol ar ddeiet iach a gweithgareddau corfforol i hybu lles corfforol disgyblion ac mae'r ysgol wedi ennill statws ysgol iach yn 2008, 2009 a 2010. Rhennir gwybodaeth ac arbenigedd yn effeithiol ag asiantaethau ac ysgolion eraill a bu'r cyswllt ag ysgol arbennig leol o fudd penodol. Mae disgwyliadau'r ysgol yn uchel o ran presenoldeb ac mae gweithdrefnau effeithiol mewn lle i ddelio yn brydlon ag absenoldebau heb eu hegluro. Mae ystod briodol o bolisïau mewn lle i hybu lles plant gan gynnwys trefniadau addas ar gyfer atal bwlio. Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau addas ar gyfer diogelu plant. Darperir profiadau dysgu addas ar gyfer datblygiad diwylliannol a moesol y disgyblion gan gynnwys cyfleoedd effeithiol i ddysgu am gredoau eraill. Mae darpariaeth yr ysgol yn hybu datblygiad y disgyblion i gydweithio ag eraill ac maent hwy, a'r gymuned leol, yn elwa o'r ystod eang o gyfleoedd all-gwricwlaidd a ddarperir.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ac mae'r cydlynydd yn magu perchnogaeth dda o'r maes. Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau arbenigol sy'n sicrhau budd i'r disgyblion. Gwneir defnydd da o gymorthyddion i ddatblygu grwpiau Sgiliau Sylfaen ac anghenion dysgu ychwanegol. Darperir cynlluniau addysg unigol addas ac mae'r adolygiadau cynnydd yn sicrhau mewnbwn priodol gan rhanddeiliad, gan gynnwys rhieni ac asiantaethau allanol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Caiff pob disgybl gynnig mynediad cyfartal i'r cwricwlwm a rhoddir sylw priodol i wahaniaethau mewn cefndir, diwylliant a chred. Mae'r ysgol wedi sefydlu, ac yn cynnal, diwylliant cynhwysol ac mae ganddi bolisiau a gweithdrefnau priodol i ddelio â gwahaniaethu amhriodol neu ymddygiad anaddas. Mae ynddi hefyd ddiwylliant cryf o barch ac ymddygiad da.

Mae'r adeilad cymharol newydd a'r safle eang yn darparu amgylchedd sy'n hybu dysgu ac addysgu. Caiff yr adeilad ei gynnal yn dda ac mae'n ddigonol ar gyfer y nifer disgyblion sydd yn yr ysgol. Mae'r ystod helaeth o adnoddau o safon da ac yn cyfarfod ag anghenion y disgyblion

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth yn arweinydd brwdfrydig sy'n hyrwyddo ethos cadarnhaol ac yn cyfleu ei weledigaeth a'i werthoedd yn llwyddiannus. Gwneir hyn o fewn awyrgylch gefnogol. Mae apwyntiad diweddar dirprwy bennaeth newydd wedi cryfhau a chyfoethogi cynhwysedd yr uwch dim rheoli. Fodd bynnag, nid yw rôl yr uwch dim rheoli na chyfrifoldebau unigolion o fewn y tîm wedi eu diffinio'n ddigon clir i gael effaith digonol ar y meysydd i'w datblygu. Mae'r uwch dim rheoli a'r staff yn cyfarfod yn gyson er mwyn rhannu gwybodaeth. Serch hynny, nid yw'r ffocws yn ddigon penodol ar safonau, ansawdd yr addysgu a'r meysydd i'w gwella.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cyfeiriad strategol priodol ar gyfer gwaith yr ysgol ac yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn dda. Mae ganddo wybodaeth fanwl ynglŷn â sut mae'r ysgol yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg ac mae'n ymwybodol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Yn ddiweddar, sefydlwyd is-bwyllgor safonau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y wybodaeth a gyfathrebir i'r llywodraethwyr. Mae'r corff llywodraethol yn datblygu ei rôl fel cyfaill beirniadol.

Mae'r ysgol yn dangos ymrwymiad clir i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Rhoddwyd sylw priodol i ddatblygiadau'r Cyfnod Sylfaen, y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac i ddatblygu medrau meddwl y disgyblion ar draws yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol wedi datblygu prosesau hunan arfarnu sy'n dylanwadu'n gynyddol ar y cynllun datblygu ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau yma yn cynnwys adolygiad trylwyr o bob agwedd ar fywyd ysgol, gan gynnwys ansawdd yr addysgu. Yn gyffredinol nid yw'r dystiolaeth sy'n deillio o fonitro safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn digon cadarn. Mae'r staff, rhieni a llywodraethwyr yn cael mewnbwn i gynnwys yr adroddiad trwy holiaduron a thrafodaethau anffurfiol. Mae gan yr ysgol ystod dda o wybodaeth ar gyfer tracio cynnydd disgyblion ond nid oes trosolwg digon penodol o'r defnydd a wneir ohono i gynllunio ar gyfer gwella. Nid yw'r ysgol wedi geithredu'n llawn ar leiafrif o argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Mae trefniadau datblygiad proffesiynol yr ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu staff. Mae cyswllt addas rhwng yr hyfforddiant a chyfrifoldebau staff ond nid oes cydlynnu digonol rhwng y gweithgareddau yma a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Yn ddiweddar, cytunwyd ar dargedau rheoli perfformiad sy'n fwy heriol er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu'r elfen o rwydweithio mewnol ac allanol. Mae yn datblygu cysylltiadau dilys gydag ysgolion eraill ac mae wedi elwa o ymwneud aelodau o'r staff â chymuned ddysgu broffesiynol yn ffocysu ar wella medrau sylfaenol disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol ac adeiladol gyda rhieni a gofalwyr. Mae cymdeithas rhieni'r ysgol yn grŵp gweithgar sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae cysylltiadau da, a threfniadau trosglwyddo pwrpasol, rhwng yr ysgol ac ysgolion uwchradd yr ardal ac fe drefnir nifer o weithgareddau pontio effeithiol. Mae'r trefniadau ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau diwedd cyfnod allweddol athrawon yn effeithiol. Mae'r bartneriaeth rhwng y lleoliad cyn-ysgol "Bobl Bach y Bannau" a dosbarth meithrin yr ysgol yn dda. O ganlyniad mae'r plant sy'n trosglwyddo yn setlo'n rhwydd a buan i fywyd yr ysgol gynradd.

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau buddiol gyda'r gymuned, cwmnïau theatr, cyflogwyr, grwpiau elusennol a sefydliadau eraill o fewn yr ardal leol a thu hwnt. Mae'r ystod eang o brofiadau sy'n deillio o hyn, yn gynyddol trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cyfoethogi'r ddarpariaeth i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd ei pherthynas gyda gwasanaethau perthnasol yr awdurdod lleol ac mae'n cydweithio â hwy yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i ddysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Yn gyffredinol, gwneir defnydd priodol o amser, profiad ac arbenigedd y staff ac mae'r cydweithio rhwng athrawon a staff sydd yn cefnogi dysgu yn dda. Mae trefniadau effeithiol mewn lle i adnabod anghenion datblygu staff ac fe wneir defnydd priodol o amser paratoi, cynllunio ac asesu.

Mae gan y disgyblion ystod eang o adnoddau dysgu o ansawdd da. Yn gyffredinol, mae rheolaeth ariannol yn dda ac mae'r penderfyniadau perthnasol wedi eu seilio ar anghenion gwella. O ystyried ei deilliannau mae'r ysgol yn cynnig gwerth am arian digonol o ran y defnydd a wneir o'r gyllideb a ddyranwyd iddi.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd bron bob un o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm â'r disgyblion yn ystod yr arolygiad. Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae pob plentyn yn teimlo fod yr ysgol yn eu dysgu sut i fod yn iach a bron pob un yn teimlo bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pob un o'r dysgwyr o'r farn bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac mae bron pob un yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo fod y plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio ac mae nifer tebyg yn teimlo nad yw ymddygiad plant yn amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 16 holiadur yn ôl ac mae y rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol. Dywedant fod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae bron pob un hefyd yn credu fod ymddygiad y disgyblion yn dda, fod y disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae llawer o'r rhieni yn teimlo fod yr addysgu yn dda a'r rhan fwyaf yn teimlo fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn teimlo nad ydynt yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac ychydig yn nodi nad ydynt yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrym neu nodi problem. Mae rhan fwyaf y rhieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu yn dda iawn.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Catherine Evans | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Owain Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Emyr Jones | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |